

## Cofion a Chyfarchion

Anfonwn ein cofion at bawb ohonoch yn yr ofalaeth, yn arbennig felly y rhai sy'n galaru am anwyliaid a'r rhai sydd heb fod yn dda eich hiechyd ar hyn o bryd. Mae Richard M. Jones (Cefn Berain) wedi cael ei symud o Ysbyty Glan Clwyd a bellach yn cael gofal yn yr Inffirmari. Bu'n rhaid i Trefor Roberts (Llansannan) ddychwelyd i'r ysbyty am rai diwrnodau ond mae'n dda cael adrodd ei fod yn teimlo'n well ac wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Balch ydym hefyd o glywed fod Falmai Evans (Saron) yn gwella ac adref o'r ysbyty, fel ag y mae Dafydd Timothy (Cefn Meiriadog). Treuliodd Selwyn Davies (Nantglyn) rai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd tua pythefnos yn ôl. Da clywed ei fod yntau'n well erbyn hyn. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddwch yn parhau i brofi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Bet Jones (Cefn Meiriadog) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig cyn i'r rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ei gyhoeddi!

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i Dafydd Owen (Hiraethog) a Sian fydd yn priodi yn Llansannan y penwythnos nesaf. Gweddïwn am fendith Duw ar eu priodas hwythau.

### I ddod

⇒ **YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHÁU** (Mai 23-26) yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ. Ni sicheir lle oni fod y tâl llawn wedi ei dderbyn gan Nerys Rowlands, Ysgrifenyddes y Weinidogaeth Iacháu **erbyn Ebrill 24ain**. Os hoffech fynychu'r Ysgol Haf eleni, cysylltwch â Mair i gael copi o'r rhaglen a ffurflen gofrestru.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (18<sup>fed</sup>), os gwelwch yn dda.

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8 Mai 2022

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Profiad diddorol yw symud tŷ! Efallai fod rhai ohonoch wedi clywed ein bod wedi newid aelwyd yn ddiweddar wrth i waith adnewyddu gychwyn yn Heulfryn, a diolch i bawb sydd wedi'n helpu hefo'r holl broses. Wedi'r gwaith ymarferol o bacio, trefnu a symud pethau o un lle i'r llall, rhaid dadbacio a cheisio cofio lle mae popeth wedi'i gadw! Ar ôl hyn i gyd mae'r cyfnod o gynefino yn dechrau – setlo yn y tŷ newydd a chychwyn ar fod yn gartrefol.

Gwnaeth hyn i mi ddechrau pendroni beth yw ystyr bod yn gartrefol? Byddwn yn clywed y gair yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio awyrgylch digwyddiadau neu leoliadau arbennig, ond tybed beth sy'n gwneud i chi deimlo'n gartrefol?

Mae'n debyg y byddai atebion pawb ohonom fymryn yn wahanol i'w gilydd, ond gallaf ddychmygu bod elfennau o berthyn, a bod yn fodlon a diogel yn eithaf pwysig. Ac oherwydd hynny, mae'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn reddfol yn meddwl am fod yn gartrefol fel peth cadarnhaol.

Ond wrth i ni droi at y Beibl gwelwn ddysgeidiaeth ychydig yn wahanol. Er enghraifft, fwy nag unwaith yn ei lythyr cyntaf, mae Pedr yn cyfeirio at Gristnogion, nid fel rhai sydd i fod yn gartrefol, ond fel dieithriaid neu alltudion yn y byd. Dywed 1 Pedr 2:11 (beibl.net): *'Ffrindiau annwyl, dim y byd yma ydy'ch cartref chi. Dych chi fel pobl ddieithr yma. Felly dw i'n apelio arnoch chi i wrthod gwneud beth mae'r chwantau naturiol am i chi ei wneud. Maen nhw'n brwydro yn erbyn beth sydd orau i ni.'*

Wrth gwrs, nid rhybuddio yn erbyn teimlo'n gartrefol ar unrhyw gyfrif y mae Pedr, ond pwysleisio nad yw'r Cristion i fod yn gartrefol mewn byd annuwiol sy'n gwrthryfela yn erbyn yr Arglwydd a'i ffyrdd. Dyna pam y mae'r adnod yn cynnwys apêl i'r Cristnogion beidio ildio i'w chwantau pechadurus fydd yn gwneud niwed i ni a'r bobl o'n cwmpas. Rydym fel Cristnogion felly i ddisgwyl teimlo'n ddieithr neu'n anghyfforddus mewn rhai sefyllfaoedd gan fod Crist yn ein galw i fod yn halen y ddaear ac yn oleuni'r byd. (Mathew 5:13-14)

Nid yn y byd y mae'r Cristion i deimlo'n gartrefol, ond yn Iesu Grist wrth i ni fwynhau'r bendithion sy'n llifo tuag atom yn nheyrnas Duw. Trwy ymddiried yn y Gwardwr, byddwn yn un o'i deulu, yn ddiogel am byth wedi derbyn y *'blaendal sy'n gwarantu'r ffaith bod lle wedi'i gadw ar ein cyfer ni*. Yn y diwedd byddwn yn cael ein gollwng yn rhydd i'w feddiannu'n llawn. *Rheswm arall i'w foli am ei fod mor wych!*' (Effesiaid 1:14 beibl.net)



## Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd un ai yn dioddef hefo'r feirws neu sydd ag unrhyw un o'r symptomau.

### Dydd Sul, Mai 8<sup>fed</sup>

- **Oedfa yn Saron** am 10:00 o dan arweiniad Mr Arawn Glyn.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Llanfair** am 10:00.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn Eglwys Sant Sannan, Llansannan** am 11:00. Bydd amlenni ar gael yn yr Eglwys ac yng Nghapel Coffa Henry Rees os byddwch yn dymuno cyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 a chinio cynnil i ddilyn. Fe wneir casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn** am 2:00.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghapel Llanefydd** am 2:00. Bydd stondin nwyddau Masnach Deg a bydd cyfle i gael sgwrs a phaned a chacen ar ôl y gwasanaeth.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 a **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol Henllan a Groes** yng Nghapel Henllan am 2:00. Bydd amlenni cyfrannu ar gael yn y capel ac yn Siop Henllan os bydd rhywun yn dymuno cyfrannu.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras (07778 511672).

### Nos Lun, Mai 9<sup>fed</sup> a Phnawn Gwener, Mai 13<sup>eg</sup>

- **'Y Salmau'** – Yr ail sesiwn mewn cyfres o chwech astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynawn Gwener am 1:30. (*Manylion mewngofnodi:* <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwirydd EBC.

### Dydd Mawrth, Mai 10<sup>fed</sup>

- **Paned a Sgwrs yn Ffestri Llansannan** am 1:30 y pnawn. Croeso cynnes i bawb.

### Dydd Sul, Mai 15<sup>fed</sup>

- **Oedfa Deuluol (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan, Groes, Saron a Nantglyn) yn Llanefydd** am 9:30 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa i'r Daith (Llansannan, Llanfair a Chefn Meiriadog) yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 gyda Huw Tan y Graig yn arwain a Rhodri yn pregethu.

### Dydd Gwener, Mai 20<sup>fed</sup>

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7:00 yr hwyr. (*Sylwch ar y newid dyddiad.*)

### Nos Wener – Dydd Sul, Mai 20<sup>fed</sup>–22<sup>ain</sup>

- **Miri Mai (8–11 oed)** yng Ngholeg y Bala. Penwythnos llawn hwyl – padlfyrddio, kayakio, disgo tawel, ffynnon siocled, chwaraeon, crefft, gemau, canu a storïau o'r Beibl. Y gost yw £66 yr un (neu £33 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu), ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau. **Cofiwch bod Eglwys Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob plentyn.** Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#), neu os na allwch archebu lle arlein neu bod gennyhych gwestiwn, ffoniwch 01678 520565 neu ebostiwch [colegybala@ebcpcw.cymru](mailto:colegybala@ebcpcw.cymru).

### Dydd Sul, Mai 22<sup>ain</sup>

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac yng **Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac yn **Groes** am 11:00 o dan arweiniad Mr Gruffydd Rhys Davies.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 ac yn **Llanefydd** am 10:30.
- **Oedfa Gymun yn Saron** am 10:00 ac **Oedfa yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras (07778 511672).